**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU NEWID SEFYDLIADOL**
**2 TACHWEDD 2018**

Cofnodion Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Delyn, Neuadd y Sir, ddydd Gwener, 2 Tachwedd 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Dave Mackie (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Sean Bibby, Geoff Collett, Ian Dunbar, Mared Eastwood, Brian Lloyd, Mike Reece, Paul Shotton a David Wisinger

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Chris Bithell, Dennis Hutchinson, Tudor Jones, Carolyn Thomas ac Andy Williams. Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr: Bernie Attridge a Christine Jones

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol ac Asedau; Prif Swyddog (Tai ac Asedau); Rheolwr Cyllid (Gwasanaethau Cymunedol) a'r Cyfrifydd (Cyllid Corfforaethol)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a Gofal Cymdeithasol a'r Swyddog Cymorth Gwasanaethau Democrataidd

## 25. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o gysylltiad.

## 26. CYNIGION CAM 2 CYLLIDEB 2019/20

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) adroddiad oedd yn cyfeirio at y pwysau ariannol ac arbedion effeithlonrwydd oedd yn wynebu'r portffolio Newid Sefydliadol yng nghyllideb 2019/20. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod gweithdai Aelodau wedi cael eu cynnal ar 13 a 23 Gorffennaf a 18 Medi, 2018 lle darparwyd gwybodaeth am y rhagolygon ariannol lleol diweddaraf yng nghyd-destun y sefyllfa genedlaethol gyffredinol. Cynhaliwyd gweithdy ychwanegol yn benodol ar gyfer y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol ar 11 Hydref, 2018 lle rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ddeall cyllidebau portffolios yn fwy manwl ac ystyried lefelau risg a chydnerthedd pob maes gwasanaeth.

Rhoddodd y Prif Swyddog esboniad manwl o arbedion effeithlonrwydd y portffolio cynllunio busnes, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Rhoddodd y Rheolwr Cyllid (Gwasanaethau Cymunedol) wybodaeth am yr arbedion a gyflawnwyd fel rhan o'r Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol a Modelau Cyflenwi Amgen ond mynegodd ei bryder am y risg i'r gwasanaethau pe bai rhagor o arbedion yn cael eu gwneud.

Hefyd, cyflwynodd y Rheolwr Ariannol (Gwasanaethau Cymunedol) ddiweddariad ar y setliad cychwynnol gan Lywodraeth Cymru a oedd wedi arwain at gynnydd o £1.9m yn y bwlch cyllidebol. Roedd swyddogion yn gweithio ar fanylion cyhoeddiadau cyllideb y Llywodraeth Ganolog ar hyn o bryd, a pha arian

ychwanegol gellid ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad. Cyfeiriodd y Prif Swyddog at y math o lefel y byddai'n rhaid codi Treth y Cyngor er mwyn diwallu'r diffyg ariannol presennol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol ac Asedau ei fod yn falch bod Aura a NEWydd wedi gallu sicrhau arbedion effeithlonrwydd a dywedodd fod y ddau yn datblygu'n dda. Dywedodd y dylid llongyfarch y Cyngor am gynnal gwasanaethau er gwaethaf yr amgylchiadau ariannol anodd.

Diolchodd nifer o Aelodau i'r swyddogion am yr adroddiad a'u canmol am yr arbedion effeithlonrwydd roeddynt wedi'u gwneud gan lwyddo i gynnal gwasanaethau a gollwyd mewn Cynghorau cyfagos. Dywedodd y Cynghorydd Paul Shotton ei fod yn gobeithio byddai unrhyw arian a fyddai'n dod i Lywodraeth Cymu gan y Llywodraeth Ganolog yn cael ei anfon ymlaen at awdurdodau lleol. Roedd y Cynghorydd David Wisinger yn cytuno a dywedodd fod angen sicrhau tegwch o ran yr arian oedd yn cael ei ddarparu i Dde Cymru a Gogledd Cymru. Cyfeiriodd hefyd at gyfarfod diweddar yr ymgeiswyr ar gyfer arweinyddiaeth Plaid Lafur Cymru a dywedodd fod nifer o gwestiynau a phryderon yn ymwneud ag arian i Ogledd Cymru wedi cael eu mynegi. Cytunodd y Cynghorydd Janet Axworthy â'r sylwadau a wnaed ond mynegodd ei phryderon ynghylch yr oedi hir cyn derbyn cyhoeddiadau ariannol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn ystod cyllidebau blaenorol a'r anhawster roedd hyn yn ei greu i Gynghorau wrth bennu cyllidebau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Sean Bibby at sgyrsiau roedd wedi'u cael gyda'i etholwyr a'r diffyg dealltwriaeth am yr ymdrech oedd yn cael ei wneud gan y Cyngor i ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd a gwarchod gwasanaethau. Dywedodd fod angen gwell cyfathrebu gyda'r cyhoedd yn y dyfodol. Roedd y Cynghorydd Geoff Collett yn cytuno a dywedodd fod angen gwneud mwy i roi gwybod i'r cyhoedd beth oedd gwir effaith y gostyngiadau cyllidebol a'u heffeithiau ar y Cyngor.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at drafodaethau yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid pan gafwyd argymhelliad i'r Aelodau geisio codi ymwybyddiaeth y cyhoedd am oblygiadau'r heriau ariannol presennol. Roedd yr Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol ac Asedau yn cydnabod bod angen ymgysylltu mwy gyda'r cyhoedd ynglŷn â'r pwysau ariannol oedd yn wynebu'r Cyngor a dywedodd fod gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â hyn.

Cyflwynodd y Prif Swyddog amlinelliad o amserlen y Gyllideb Genedlaethol arfaethedig ac amserlen y Gyllideb Leol, fel y nodwyd yn yr adroddiad. Byddai'r adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet a'r Cyngor ar 19 Chwefror, 2019.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi opsiynau arbedion effeithlonrwydd y porffolio, fel y dangosir yn yr adroddiad.

## 27. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 10.33 am)

..................................................
**Cadeirydd**